Cleient: Read Construction
Rhif y Gwaith: 19076
Dyddiad: Mawrth 2020

Ysgol Parc Borras

Datganiad Dylunio a Mynediad

TACP ArchitectsLtd

TAFLEN REOLI

Wrth gyfeirio at y ddogfen hon, gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio'r cyhoeddiad mwyaf diweddar yn unol â'r tabl isod, a gwnewch yn siŵr bod fersiynau blaenorol y ddogfen hon yn cael eu dinistrio neu y nodir arnynt eu bod wedi'u disodli.

CYMERADWYO'R DDOGFEN

Awdur	Gwiriwyd gan	Cymeradwywyd gan
LT	MG	MG

COFNOD O GYHOEDDIADAU'R DDOGFEN

Cyhoeddiad	Dyddiad	Disgrifiad o'r Diwygiad	Gan	Gwiriwyd gan
1	2020-04-30	Cyhoeddwyd y ddogfen er sylwadau.	LT	MG
2	2020-05-05	Diwygiwyd teitl y gwaith i Ysgol Gynradd Gymunedol Parc Borras.	LT	MG
3	2020-05-12	Diwygiwyd y ddogfen er mwyn ystyried y sylwadau a gafwyd gan CBSW ar 20-05-07 a'r esboniadau o'r testun.	LT	MG
4	2020-05-18	Cyhoeddwyd y ddogfen er mwyn cael cymeradwyaeth cam tri gan y cleient.	LT	MG
5				
6				

Rhagarweiniad

- Paratowyd y Datganiad Dylunio a Mynediad hwn gan TACP Architects Ltd ar ran Read Construction Ltd i gefnogi cais cynllunio llawn ar gyfer estyniad a gwaith adnewyddu arfaethedig yn Ysgol Gynradd Gymunedol Parc Borras.

- Mae'r prosiect hwn yn bwriadu creu 10 ystafell ddosbarth ychwanegol o fewn estyniad deulawr newydd fydd wedi'i atodi i'r Ysgol Iau bresennol. Yn ogystal, bwriedir codi estyniad unllawr newydd ar flaen yr ysgol iau er mwyn lleoli uned gofal plant newydd. Bydd y ddwy ysgol hefyd yn cael eu hailfodelu a'u hadnewyddu'n fewnol er mwyn eu trawsnewid yn ysgol cyfrwng Cymraeg ac ysgol cyfrwng Saesneg, yn y drefn honno. Hefyd, bwriedir gwneud gwaith allanol i lunio meysydd parcio newydd ynghyd â gwell mannau chwarae.

- Mae'r Datganiad Dylunio a Mynediad hwn hefyd yn dod gyda phecyn lluniadau sy'n cefnogi'r cais cynllunio llawn.

Cyd-destun

- Mae'r safle wedi'i leoli i'r gogledd ddwyrain o Wrecsam o fewn ardal Borras. Mae'r safle'n gorwedd ger prif Ffordd Parc Borras, ac Ysgol Gynradd Gymunedol Parc Borras sydd yno ar hyn o bryd, sy'n cynnwys dau brif adeilad, sef ysgol fabanod ac ysgol iau, gydag adeiladau ategol eraill hefyd ar y safle.

- Mae'r ardal o amgylch y safle'n cynnwys tai preswyl yn bennaf, gyda nifer fechan o eiddo masnachol. Mae'r rhain wedi'u lleoli ger adeilad yr ysgol fabanod ac ar hyd Ffordd Parc Borras.

- Ar hyn o bryd, ceir mynediad i'r safle naill ai mewn cerbyd neu ar droed oddi ar Ffordd Parc Borras. Mae yna un fynedfa i gerbydau ac un fynedfa i gerddwyr ar gyfer pob ysgol ar hyn o bryd. Mae yno hefyd lwybr troed a rennir ar y safle, a ddefnyddir i gael mynediad i'r ddwy ysgol ac a leolir ger prif fynedfa'r ysgol fabanod. Yn olaf, mae mynedfa eilaidd i gerddwyr wedi'i lleoli ar y ffin ogledd ddwyreiniol, gyda'r fynedfa hon yn cael ei defnyddio i gyrraedd y rhwydwaith llwybrau troed cyfagos.

Defnydd Presennol

- Ysgol Gynradd Gymunedol Parc Borras sydd ar y safle ar hyn o bryd, sydd wedi'i rhannu ymhellach yn ysgolion babanod ac iau. Mae'r safle wedi cael ei ddefnyddio'n barhaus er dibenion addysgol ers 1971, pan agorodd yr ysgol gyntaf.

- Mae gan Ysgol Gynradd Gymunedol Parc Borras tua 490 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae hyn yn cynnwys nifer o blant sy'n mynychu'r Uned i Blant â Nam ar y Clyw, sy'n gwasanaethu plant o Wrecsam a'r cyffiniau.

- Mae'r safle hefyd yn cynnwys meddygfa bresennol, sydd wedi'i hatodi i'r ysgol iau. Nid yw meddygfa Parc Borras yn rhan o'r gwaith newid arfaethedig.

Cyfiawnhad dros y Defnydd a Fwriedir

- Mae'r cynnig yn datblygu ar raglen fuddsoddi hirdymor CBSW i greu amgylcheddau dysgu'r 21ain ganrif drwy gydol y fwrdeistref sirol. Trowch at adran 1.5 Fframwaith Trefniadaeth Ysgolion, Cynllunio Darpariaeth Addysg - 2017-2025 am fanylion pellach. Bydd y cynnig hefyd wedi'i leoli ar safle sydd â defnydd sefydledig o ddarparu cyfleusterau addysgol i'r ardal gyfagos.

- Bydd y cynnig hwn hefyd yn creu ysgol cyfrwng Cymraeg newydd drwy ailfodelu ac adnewyddu'r ysgol fabanod bresennol. Mae darparu ysgol cyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer yr ardal yn cefnogi ymgyrch Llywodraeth Cymru i annog y defnydd o'r Gymraeg o fewn cymunedau ledled Cymru. Trowch at bwynt 6.176 Cynllun Datblygu Lleol Wrecsam 2013-2028 (heb ei fabwysiadu) am fanylion pellach.

- Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg CBSW - 2017-2020 yn nodi cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg fel un o'i amcanion. Mae'r cynllun yn nodi'n benodol yr awydd i ychwanegu 401 o leoedd cyfrwng Cymraeg ychwanegol, gyda'r cynnig hwn yn llunio rhan o'r cynnydd hwn mewn lleoedd.

Egwyddor y Dyluniad

- Prif amcan y cynnig yw gwella'r adeiladau a'r cyfleusterau addysgu presennol ar y safle, a'u hymestyn lle bo'r angen i ddarparu cyfleusterau addysgu a gofal plant ychwanegol. Bydd hyn o fudd i'r staff addysgu ac i'r disgyblion sy'n defnyddio'r adeiladau hyn fel ei gilydd, yn ogystal â'r gymuned ehangach y mae'r ysgolion hyn yn eu gwasanaethu.

- Wrth ddylunio'r cynnig, rhoddwyd ystyriaeth ofalus i sicrhau ei fod yn cydweddu ag adeiladau presennol yr ysgol a'r ardal gyfagos. Yn ogystal, bydd yn gwella'r cyfleusterau allanol o amgylch yr ysgol, ac yn benodol, yn darparu dau gwrt chwaraeon newydd, un i bob ysgol.

Hygyrchedd – Symudiadau Cerbydau a Cherddwyr i, o ac o fewn y safle

- Ceir mynediad i'r safle ar hyn o bryd oddi ar Ffordd Parc Borras, gyda mynediad i gerbydau drwy brif giatiau'r ddwy ysgol. Ceir mynediad i gerddwyr ar hyd un o ddau lwybr troed dynodedig, gyda'r llwybrau troed hyn wedi'u lleoli ger prif fynedfa pob ysgol. Mae llwybr troed ar wahân a rennir yn cysylltu'r ddwy ysgol ac wedi'i leoli yng nghanol y safle.

- Mae'r cynnig hwn yn bwriadu cadw'r trefniadau mynediad hyn a'u gwella lle bo hynny'n bosib. Gwelir hyn yn y bwriad i greu llwybr troed newydd i gerddwyr sy'n

cysylltu'r feddygfa bresennol â Ffordd Parc Borras, ac yn yr estyniad i'r llwybr troed presennol a rennir, er mwyn cael gwell cydgysylltiad rhwng yr ysgolion. Er mwyn hwyluso'r cynllun safle newydd arfaethedig, bydd y llwybr troed presennol sy'n arwain i'r fynedfa eilaidd i gerddwyr yn cael ei ail-leoli. Fodd bynnag, bydd y fynedfa hon yn cael ei chadw.

- Bwriedir hefyd ehangu maes parcio presennol yr ysgol iau er mwyn i'r ddwy ysgol allu ei ddefnyddio. Bydd llwybr troed newydd i gerddwyr yn cysylltu'r maes parcio hwn â'r ysgol cyfrwng Cymraeg. Bydd ehangu'r maes parcio hwn hefyd yn ein galluogi i greu mannau gollwng pwrpasol. Bydd y llwybr presennol ar gyfer danfon cyflenwadau i'r ysgol iau (yr ysgol cyfrwng Saesneg) hefyd yn cael ei wella. Wrth ddylunio'r llwybr hwn, rhoddwyd ystyriaeth i gylch troi unrhyw gerbydau danfon/ sbwriel fydd angen ei ddefnyddio. Yn olaf, bydd y safle cyfan yn elwa ar ddarparu mannau parcio hygyrch ychwanegol.

- Bydd y llwybrau troed hefyd yn cael eu diffinio drwy osod ffensys/plannu coed, er mwyn helpu i wahanu cerddwyr a thraffig pan fo angen gwneud hynny. Bydd mannau croesi pwrpasol yn cael eu darparu ar fannau penodol ar hyd a lled y safle.

Cymeriad Arfaethedig

- Cafodd y broses ddylunio a gynhaliwyd ar gyfer y datblygiad arfaethedig ei llywio drwy ddadansoddi'r safle'n ofalus. Mae hyn wedi arwain at gynnig sy'n cydweddu ag adeiladau presennol yr ysgol a'r ardal gyfagos.

- Bwriedir i dalwynebau'r estyniad deulawr arfaethedig fod wedi'u gwneud o gyfuniad o frics, paneli gorchudd a muriau paneli gwydr. Bydd hyn yn rhoi cyfle i olau dydd naturiol ddod i mewn a chynnig golygfeydd y tu mewn a'r tu allan i'r adeilad. Mae defnyddio brics yn sicrhau bod yr adeilad newydd yn rhannu'r un nodweddion â'r ardal leol, ac mae'r gorchudd yn cyflwyno elfen gyfoes i'r adeilad newydd.

- Bydd y palet o ddeunyddiau'n cael eu defnyddio'n sympathetig i drin y wyneb arfaethedig, gan helpu cymedroli'r raddfa ar gyfer y cyd-destun lleol a defnyddwyr yr estyniad. Bydd y paneli gorchudd arfaethedig, fydd wedi'u gwneud o arlliwiau goleuach a thywyllach, yn cael eu defnyddio ochr yn ochr â'r brics a'r paneli gwydr i lunio'r wynebau.

- Bwriedir defnyddio brics yn bennaf i godi'r estyniad unllawr ar flaen yr ysgol iau bresennol. Bydd hyn yn golygu bod yr estyniad yn cydweddu â'r adeilad presennol.

- Bydd toeon arfaethedig yr estyniadau deulawr ac unllawr yn fflat ar y cyfan er mwyn cydweddu â'r ysgolion presennol. Bydd gan yr estyniad deulawr barapet sy'n golygu y bydd y talwynebau'n ddi-dor. Bydd yr estyniad unllawr yn cadw'r talwynebau sydd eisoes ar y safle.

- Lle bo'n bosib, bydd y datblygiad arfaethedig yn elwa ar olau ac awyru naturiol. Bydd rhaid cael goleuadau a systemau awyru artiffisial o fewn y datblygiad arfaethedig, a bydd yr elfennau hyn yn cydymffurfio â'r safonau priodol, sef Bwletin Adeiladu 90

Dyluniad Goleuadau ar gyfer Ysgolion a Bwletin Adeiladu 101 Awyru Adeiladau Ysgolion 2006, yn y drefn honno.

- Bwriedir gosod canopïau gwydr ger yr estyniad deulawr, fydd yn darparu lle i gysgodi yn ogystal â mannau dysgu allanol dan gysgod.

- Mae'r cynllun yn darparu gwell cyfleusterau ysgol ynghyd â darpariaeth ychwanegol fydd yn addas ar gyfer yr anghenion presennol a rhai'r dyfodol. Ystyrir bod y datblygiad arfaethedig yn briodol ar gyfer y safle a'r ardal ehangach.

Diogelwch Cymunedol

- Er na ragwelir y bydd yna unrhyw gynnydd niweidiol o ran risg na diogelwch ar y safle o ganlyniad i'r datblygiad arfaethedig, mae'r cynnig yn caniatáu ar gyfer cadw pob ffin bresennol, gan gynnwys ffensys a gwrychoedd. Bydd y rhain yn cael eu haddasu a'u gwella yn ôl yr angen i hwyluso cynllun newydd y safle.

- Bydd yr ysgolion yn adolygu ac yn datblygu gweithdrefnau diogelwch presennol sy'n sicrhau bod pob giât, drws mynediad a ffenestr yn cael eu cloi'n ddiogel y tu allan i oriau ysgol. Caiff y polisi hwn ei ehangu/addasu i fodloni'r datblygiad arfaethedig, fydd hefyd yn cynnwys gweithdrefnau diogelwch ar gyfer y cyfnodau pan fydd yr ysgolion yn weithredol.

- Mae yna eisoes gynteddau mynediad diogel yn y ddwy ysgol, a bydd y cynteddau hyn yn cael eu hadnewyddu fel rhan o'r datblygiad arfaethedig. Bwriedir ychwanegu cyntedd mynediad diogel ar gyfer yr estyniad unllawr, fydd yn cynnwys digon o gyfleusterau rheoli i olygu mai dim ond pobl sydd wedi cael cymeradwyaeth ymlaen llaw fydd yn cael mynd i mewn i'r ardal hon. Bydd hyn hefyd yn ei gwneud yn bosib i'r feithrinfa fod ar agor y tu allan i oriau arferol yr ysgolion.

- Bwriedir cynnwys storfa finiau ddiogel gerllaw'r estyniad deulawr, fydd yn cael ei leoli 10 metr oddi wrth yr estyniad er mwyn lleihau'r perygl i dân ledaenu.

- Rhagwelir y bydd pob drws a ffenestr yn yr ysgol iau bresennol yn cael eu disodli â rhai modern cyfatebol. Gwneir hyn er mwyn gwella diogelwch a helpu lleihau'r potensial i dresmaswyr dorri i mewn i'r eiddo. Bydd rhaglen debyg o osod drysau a ffenestri newydd hefyd yn cael ei chynnal yn yr ysgol fabanod yn ôl yr angen.

- Bydd system TCC newydd yn cael ei gosod i edrych dros berimedr allanol cyfan yr adeilad, yn ogystal â'r brif fynedfa i'r ysgol cyfrwng Saesneg. Yn ogystal, bwriedir gosod TCC mewnol ym mhrif fynedfa, derbynfa a mynedfa clwb brecwast yr ysgol cyfrwng Saesneg. Caiff hyn ei ategu gan oleuadau allanol newydd arfaethedig i ddarparu golau digonol ar y llwybrau a'r meysydd parcio newydd, yn ogystal â'r mannau allanol newydd, ac eithrio'r ddau gwrt chwaraeon newydd.

- Rhoddwyd ystyriaeth ofalus i ddyluniad y to fflat newydd ar yr estyniad deulawr, fydd wedi'i guddio y tu ôl i barapet sylweddol er mwyn sicrhau nad oes fawr ddim mynediad posib at y to. Bydd posib mynd at y to hwn i wneud gwaith cynnal a chadw drwy fynediad mewnol. Bydd yr estyniad unllawr arfaethedig yn elwa ar fesurau

gwrth-ddringo presennol, fydd hefyd yn cael eu hehangu neu eu haddasu i gyd-fynd â'r estyniad hwn.

- Rhagwelir y bydd y pwyntiau mynediad presennol ar gyfer cynnal a chadw toeau'r ysgol fabanod a'r ysgol iau yn cael eu cadw.

Cynaliadwyedd Amgylcheddol

- Bydd y datblygiad arfaethedig yn bodloni gofynion y Rheoliadau Adeiladu presennol mewn perthynas â chynaliadwyedd amgylcheddol. Ar y cyd â hyn, bydd y datblygiad arfaethedig hefyd yn cael ei adolygu o dan BREEAM.

- Yn ogystal, bydd mesurau arbed ynni'n cael eu rhoi ar waith i leihau'r galw am ynni, yr allyriadau carbon ac i fodloni gofynion y Rheoliadau Adeiladu. Mae'r datblygiad arfaethedig wedi rhoi ystyriaeth i ddefnyddio deunyddiau cynaliadwy yn ogystal â strategaeth rheoli dŵr a gwastraff gynaliadwy.

- Bwriedir defnyddio systemau ynni cynaliadwy ar gyfer y datblygiad, fydd yn golygu gosod paneli ffotofoltäig ar do'r estyniad deulawr. Bydd y paneli ffotofoltäig hyn yn ategu'r defnydd o foeleri nwy hynod effeithlon fydd yn disodli'r hen foeleri aneffeithlon presennol. Bwriedir hefyd disodli hen foeleri aneffeithlon presennol yr ysgol fabanod â boeleri nwy sy'n arbed mwy o ynni.

- Cynhaliwyd Arolwg Ecoleg ac Arolwg Coed gan Enfys Ecology Ltd a Tree Solutions Ltd, yn y drefn honno. Bydd y ddwy ddogfen hyn yn llunio rhan o'r cais.

- Nid yw map risg llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi bod y safle mewn perygl o lifogydd. Mae'r map yn nodi nifer o fannau lle mae perygl dŵr wyneb yn yr ardal leol.

Defnydd Tir

- Bydd y safle'n parhau i gael ei ddefnyddio er dibenion addysgol, gyda'r datblygiad arfaethedig yn bwriadu gwella'r cyfleusterau addysgol presennol sydd eisoes ar y safle.

Llygredd Sŵn

- Er y bydd y gwaith adeiladu yn cynhyrchu sŵn, gwneir pob ymdrech i gynhyrchu'r lleiaf posib o sŵn lle bo hynny'n ymarferol ac er budd yr ardal gyfagos. Ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau, rhagwelir na fydd yr ysgol newydd yn cynhyrchu lefelau uwch o sŵn nag a gynhyrchir gan yr ysgol bresennol.

Ansawdd Aer

- Efallai y bydd rhywfaint o lwch yn cael ei gynhyrchu o ganlyniad i'r gwaith adeiladu, ond gwneir pob ymdrech i gynhyrchu cyn lleied o lwch ag sy'n bosib.

- Ni ragwelir y bydd y datblygiad arfaethedig yn cynhyrchu unrhyw lygredd ychwanegol.